ADSS Cymru
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

MANIFFESTO

Ar gyfer etholiadau Senedd Cymru yn 2026, mae ADSS Cymru'n gofyn i bob plaid wleidyddol ymrwymo i'r addewidion canlynol yn eu maniffestos:

1

Sicrhau cyllid hirdymor, cynaliadwy

Wrth i boblogaeth Cymru dyfu a heneiddio, mae angen i ni **sicrhau cyllid sefydlog, hirdymor ar gyfer gofal cymdeithasol** sy'n mynd i'r afael â'r twf anochel yn yr angen am ofal cymdeithasol a gwasanaethau cymorth.

2

Blaenoriaethu lles a chysylltiad cymunedol

Rydym am i bawb fyw mor dda ac mor annibynnol â phosibl, wedi'u cysylltu â'u ffrindiau, eu teuluoedd a'u cymunedau. **Mae angen blaenoriaethu a gwella buddsoddiad mewn gwasanaethau** i atal iechyd gwael ac ynysu cymdeithasol. Gall y dulliau hyn liniaru neu oedi'r angen am ofal a chefnogaeth mewn argyfwng.

3

Trawsnewid gwasanaethau i blant, teuluoedd ac oedolion

Mae angen i bawb fod yn ymrwymedig i gyd-gynhyrchu canlyniadau gwell i blant, teuluoedd ac oedolion. Dylai pob partner fod yn ymgysylltu'n llawn trwy **gymorth cynnar, arfer sy'n seiliedig ar gryfder ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth**. Rhaid i'r broses o ddileu elw o ofal plant gael ei hariannu'n llawn a'i chyd-gynhyrchu.

4

Cefnogi trawsnewid digidol ac arloesi

Mae angen **mynediad i'r technolegau mwyaf effeithiol** ar y sector gofal cymdeithasol. Mae'n rhaid i ni fuddsoddi mewn trawsnewidiad digidol i arfogi gofal cymdeithasol gyda systemau modern, rhyngweithredol wedi'u hategu gan arloesedd moesegol. Trwy harneisio data a DA, gallwn rymuso'r gweithlu i ddarparu cymorth mwy effeithiol, hygyrch.

5

Gweithredu fframwaith cyflog a chynnydd teg ar gyfer yr holl staff gofal cymdeithasol

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn haeddu'r un parch â gweithwyr proffesiynol iechyd ac addysg. Mae angen fframwaith cyflog a chynnydd gyda **chyflog teg a llwybrau gyrfa clir i bob gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol**.

6

Gwella mesurau diogelu ar gyfer plant sy'n cael eu haddysgu gartref

Rhaid cyflwyno mesurau diogelu cryfach ar gyfer plant sy'n cael eu Haddysgu Gartref yn Ddewisol (EHE), gan gynnwys creu cofrestr o blant EHE i sicrhau gwell goruchwyliaeth a gwarchodaeth gyhoeddus.